Cardiff Council Update: 10th July

Welcome to the last update of the week from Cardiff Council, covering: taskforce to tackle discrimination and injustice faced by Cardiff's BAME communities; artist impression of revamped Castle Street revealed; 'No Going Back', a new vision for homelessness services; safety first as work to re-open Cardiff's children's play areas begins; and delivering 21st Century Schools Programme with support from Mutual Investment Model (MIM).

Taskforce to tackle discrimination and injustice faced by Cardiff's BAME communities

A taskforce designed to tackle race inequalities and race injustice in Cardiff could be set up this summer by Cardiff Council.

The taskforce was proposed by the Leader of Cardiff Council, Cllr Huw Thomas, in response to the tragic death of George Floyd in the USA, and the campaign by the Black Lives Matter movement in the UK calling for greater justice and equality for Black Communities.

Cllr Thomas said: "There have been well-publicised calls in the wake of the Black Lives Matter movement for a reassessment of how individuals in British history with involvement in slavery are commemorated. Specifically in Cardiff the debate has focused on the statue of Sir Thomas Picton in City Hall.

"I have publicly indicated my support for this call, and asked that the Council as a whole give a democratic mandate for the removal of this historic monument through a debate and decision by Full Council at the earliest possible opportunity.

"However, whilst gestures such as this are important, they cannot deflect us from the harder task of trying to address the challenges still experienced by Black communities today.

"Although Cardiff has a proud history of multiculturalism, and a tradition of celebrating diversity, this cannot be an excuse for complacency or inaction, and we must acknowledge that there are people of colour in this city today who must deal with racism as a feature of their everyday lives. It is important therefore in my view that we too reflect on how we can address the issues faced by Black communities in the city. This is why I am committed to setting up a task force to work with Black and BAME communities in Cardiff to establish what more the Council can do to support them. I am eager that this avoids just being a talking shop where the same discussions we've heard for decades are repeated. Rather, I want to hear from new voices, and focus on tactical issues where the Council can act quickly, and galvanise change in others, responding to the real needs of our communities."

The Leader of the Council has invited the local Butetown councillor, Saeed Ebrahim, to chair the Race Equality Taskforce, which could have up to 14 members plus the chair. A public appointment process will be undertaken to identify candidates for positions on the taskforce.

Cllr Ebrahim said: “We want to tackle and find solutions for the discrimination and disadvantages faced by the BAME community in Cardiff. The taskforce will need insightful individuals with an interest in race and human rights. We need people with the ability, experience, opportunity and influence to make real changes in their sector, industry or organisation.

“We will consult with the BAME community in August to gather their views on what the taskforce’s priorities should be. This will help us shape the taskforce’s agenda. I want us to produce regular reports to Cabinet complete with recommendations for action to be considered. I am eager to get started. I know this Cabinet wants to see real change and this taskforce is a way of ensuring the voice of the BAME community is heard when new policies are being drafted.”

The Council has also identified initial areas it proposes to be considered by the taskforce, including:

- Finding out what more can be done to ensure the council’s membership and workforce represents the full diversity of the city it serves;
- Supporting BAME communities to access employment opportunities;
- Working closely with Welsh Government on an audit of statues, street and building names to address Wales’ connections with the slave trade.

On Thursday, July 16, Cabinet will receive a report recommending the setting up of the taskforce. Once agreed work will begin on recruiting members and on consulting with the BAME community on taskforce priorities.

The taskforce will provide an annual report to Full Council, in line with the reporting schedule for the Council’s statutory Equalities Annual Report, as well as reports to Cabinet throughout the year with recommendations for action in prioritised areas.

Artist impression of revamped Castle Street revealed

An artist impression showing the new, outdoor, covered, eating area planned for Cardiff’s Castle Street has been released by Cardiff Council.

The scheme is part of a wider range of measures being put in place in the city centre to increase useable, outdoor space for the hospitality sector which is trying to

recover from the effects of the pandemic. The new hospitality area will allow businesses to trade safely in socially-distanced outdoor settings. Visitors will be able to order food and drinks for delivery from a selection of restaurants and cafes in the city centre via an app.

Work on asphalting Cardiff Street has already taken place and it is hoped the new outdoor area could be available to use by the end of the month.

The new outdoor space will be built directly on Castle Street, giving visitors a stunning view of the iconic castle in the heart of the city centre. More details on how the space will be run will be released closer to the opening date.

No Going Back: New vision for homelessness services

A vision for future homelessness services in Cardiff that sets out a new pathway for accommodation and support services in the city has been unveiled.

The Council's new model is very much in line with Welsh Government direction on homeless services and seeks to build on the significant progress already made supporting people off the streets. The proposals aim to improve services to better meet clients' needs and build on the swift response to the Coronavirus pandemic in a 'No Going Back' approach to supporting vulnerable individuals.

Key components of the new vision include a new 24-hour assessment centre, bringing homeless and health services together on site, and more specialist accommodation, to ensure individuals have good quality, supported provision to help get their lives back on track.

A new approach to delivering services for homeless families who are homeless is also set out in a report to be considered by Cabinet on Thursday, July 16.

Cabinet will hear about the progress made by services during the COVID-19 crisis, the rapid measures put in place to safely accommodate vulnerable clients and the steps already taken to secure additional permanent accommodation as part of the Council's longer term plans for tackling homelessness.

A new assessment centre, where a client's needs will be properly understood and an appropriate solution developed, with on-site emergency accommodation is a focal point of the new vision. The centre will become a co-ordination point for the city's multi-disciplinary complex needs services including street and hostel outreach and will provide referrals for clients to be rehoused into good quality, self-contained accommodation in a supported setting, depending on the level of their needs.

Plans for better accommodation are outlined in the report. Plans are set out to refocus an existing facility in Adamsdown, which currently provides temporary accommodation for homeless families, to develop an integrated facility of around 103 self-contained units with intensive support, such as on-site health and therapeutic services. Additional flats will be available as part of the scheme for longer term more settled accommodation.

This is in addition to extra accommodation already sourced in the city in Llanrumney, and a 42-unit student housing block on Newport Road to meet increased demand.

Rapid rehousing and Housing First are also an important part of the vision for future homelessness services in Cardiff, ensuring that homeless people can move into permanent accommodation as soon as possible.

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24324.html

Safety first as work to re-open Cardiff's Children's Play Areas begins

Work has begun to ensure that children's play areas and outdoor fitness equipment in Cardiff's parks are safe to use, following the Welsh Government announcement that they can now re-open to the public.

Cardiff has more than 100 play areas and nine outdoor fitness areas and safety inspections will need to be carried out at each site before they can be re-opened to the public.

To ensure that all areas of Cardiff have some outdoor children's play provision available to use as quickly as possible, these inspections and any necessary work to reinstate or repair equipment will be carried out on phased basis over the coming weeks and months.

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24317.html

Delivering 21st Century Schools Programme with support from Mutual Investment Model (MIM)

Cardiff Council's Cabinet will be updated on progress made in relation to the Mutual Investment Model (MIM) to support the delivery of Cardiff's Band B 21st Century Schools Programme, when it meets on Thursday 16, July.

MIM is a national scheme that has been developed by Welsh Government to borrow funds via the private sector, to design and build schools and to maintain the fabric of the buildings over a 25 year period.

The Council has agreed to a 10 year Strategic Partnering Agreement (SPA) with a joint venture of Welsh Government and private sector partner Meridiam Investments II SAS, to deliver future schools, including in principle Willows High School and Cathays High School.

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24321.html

Diweddariad Cyngor Caerdydd: 10 Gorffennaf

Croeso i ddiweddariad olaf yr wythnos gan Gyngor Caerdydd, sy'n cynnwys: tasglu i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghyfiawnder mae cymunedau BAME Caerdydd yn eu hwynebu; datgelu argraff arlunydd o Heol y Castell wedi'i hailwampio; 'Dim Troi Nôl', gweledigaeth newydd ar gyfer gwasanaethau digartrefedd; diogelwch yn gyntaf wrth i'r gwaith ddechrau ar ailagor Ardaloedd Chwarae Plant Caerdydd; a cyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gyda chymorth Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Tasglu i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghyfiawnder mae cymunedau BAME Caerdydd yn eu hwynebu

Mae'n bosibl y caiff tasglu â'r nod o daclo anghydraddoldeb ac anghyfiawnder hiliol yng Nghaerdydd ei sefydlu yr haf hwn gan Gyngor Caerdydd.

Cynigiwyd y tasglu gan Arweinydd Cyngor Caerdydd, y Cynghorydd Huw Thomas, mewn ymateb i farwolaeth ofnadwy George Floyd yn yr UDA ac mae'r ymgyrch gan y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys yn y DU yn galw am gydraddoldeb a chyfiawnder mwy i Gymunedau Pobl Dduon.

Dywedodd y Cynghorydd Thomas: "Bu sawl galwad cyhoeddus iawn yn sgil y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys am ailasesiad o sut y caiff unigolion oedd yn hanes Prydain a fu'n gysylltiedig â chaethwasiaeth eu coffau. Yng Nghaerdydd yn benodol, mae'r ddadl wedi canolbwyntio ar gerflun Syr Thomas Picton yn Neuadd y Ddinas.

"Rwyf wedi nodi'n gyhoeddus fy mod yn cefnogi'r alwad hon, ac rwyf wedi gofyn i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd greu gorchymyn democrataidd i dynnu'r gofeb hanesyddol hon trwy drafodaeth a phenderfyniad gan y Cyngor Llawn cyn gynted â phosibl.

"Fodd bynnag, er bod gweithrediadau fel y rhain yn bwysig, ni allen nhw ein gwyro rhag y dasg galetach o geisio mynd i'r afael â'r heriau mae cymunedau Pobl Dduon yn dal i'w profi heddiw.

"Er bod gan Gaerdydd hanes amlddiwylliannol y gellir bod yn falch ohono, a thraddodiad o ddathlu amrywiaeth, ni allai hyn esgusodi hunanfoddhad neu ddiffyg gweithredu, ac mae'n rhaid i ni gydnabod bod pobl nad ydynt yn wyn yn y ddinas yn gorfod delio â hiliaeth bob dydd. Mae'n bwysig felly, yn fy marn i, ein bod ni hefyd yn meddwl am sut y gallwn ni fynd i'r afael â'r problemau mae cymunedau Pobl Dduon yn eu hwynebu yn y ddinas. Dyma fy rheswm dros ymrwymo i sefydlu tasglu i weithio gyda chymunedau BAME yng Nghaerdydd i gael gwybod am y gwaith ychwanegol y gall y Cyngor ei wneud i'w cefnogi. Rwy'n awyddus i sicrhau nad yw hyn yn dod yn siop siarad lle y caiff yr un trafodaethau rydym wedi'u clywed ers degawdau eu hailadrodd. Yn hytrach, rydw i eisiau clywed gan leisiau newydd, a chanolbwyntio ar faterion tactegol y gall y Cyngor weithredu'n gyflym arnynt, ac ysgogi newid mewn pobl eraill, gan ymateb i anghenion go iawn ein cymunedau."

Mae Arweinydd y Cyngor wedi gwahodd cynghorydd lleol Butetown, Saeed Ebrahim, i gadeirio'r Tasglu Cydraddoldeb Hilio, a allai roi lle i 14 aelod yn ogystal â'r

cadeirydd. Caiff proses benodi gyhoeddus ei chynnal i nodi ymgeiswyr ar gyfer y swyddi ar y tasglu.

Dywedodd y Cynghorydd Ebrahim: “Rydym am daclo’r gwahaniaethu a’r anfanteision mae’r gymuned BAME yng Nghaerdydd yn eu hwynebu yn ogystal â dod o hyd i atebion. Bydd angen unigolion craff sydd â diddordeb mewn hawliau hiliol a dynol ar y tasglu. Mae angen pobl â’r gallu, y profiad, y cyfle a’r dylanwad arnom i wneud newidiadau go iawn yn eu sectorau, eu diwydiannau neu eu sefydliadau.

“Byddwn yn ymgynghori â’r gymuned BAME ym mis Awst i gael barn ar flaenoriaethau'r tasglu. Bydd hyn yn ein helpu i lunio agenda’r tasglu. Rwyf am i ni lunio adroddiadau rheolaidd i’r Cabinet ynghyd ag argymhellion i’w gweithredu i gael eu hystyried. Rwy’n awyddus i roi cychwyn arni. Rwy’n gwybod bod y Cabinet hwn am weld newid go iawn ac mae’r tasglu yn ffordd o sicrhau bod llais y gymuned BAME yn cael ei glywed pan gaiff polisïau newydd eu drafftio.”

Mae’r Cyngor hefyd wedi nodi meysydd cychwynnol y mae’n cynnig y dylent gael eu hystyried gan y tasglu, gan gynnwys:

- Cael gwybod am waith ychwanegol y gellir ei wneud i sicrhau bod aelodau a gweithlu’r Cyngor yn cynrychioli amrywiaeth lawn y ddinas y mae’n ei gwasanaethu;
- Cefnogi cymunedau BAME i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth;
- Gweithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru ar archwilio cerfluniau, enwau strydoedd ac adeiladau i fynd i’r afael â chysylltiadau Cymru a’r fasnach mewn caethweision.

Ddydd Iau 16 Gorffennaf, bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad yn argymell sefydlu’r tasglu. Ar ôl cytuno ar hyn, bydd gwaith yn dechrau ar recriwtio aelodau ac ar ymgynghori â’r gymuned BAME ar flaenoriaethau’r tasglu.

Bydd y tasglu’n rhoi adroddiad blynyddol i’r Cyngor Llawn, yn unol â’r amserlen adrodd ar gyfer Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol statudol y Cyngor, yn ogystal ag adroddiadau i’r Cabinet drwy gydol y flwyddyn gydag argymhellion i’w gweithredu mewn meysydd â blaenoriaeth.

Datgelu argraff arlunydd o Heol y Castell wedi’i hailwampio

Mae Cyngor Caerdydd wedi rhyddhau argraff arlunydd yn dangos yr ardal fwyta awyr agored newydd dan orchudd a gynlluniwyd ar gyfer Heol y Castell yng Nghaerdydd.

Mae'r cynllun yn rhan o ystod ehangach o fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith yng nghanol y ddinas i gynyddu'r gofod awyr agored y gellir ei ddefnyddio gan y sector lletygarwch sy'n ceisio adfer o effeithiau'r pandemig. Bydd yr ardal letygarwch newydd yn galluogi busnesau i fasnachu'n ddiogel mewn lleoliadau awyr agored gan gadw pellter cymdeithasol. Gall ymwelwyr archebu bwyd a diod i'w gyflenwi gan ddetholiad o fwytai a chaffis yng nghanol y ddinas drwy gyfrwng app.

Mae gwaith i osod tarmac ar Heol y Castell eisoes wedi'i gyflawni a'r gobaith yw y gallai'r ardal awyr agored newydd fod ar gael i'w defnyddio erbyn diwedd y mis. Caiff y gofod awyr agored newydd ei greu yn uniongyrchol ar Heol y Castell ei hun gan gynnig golygfa drawiadol o'r castell eiconig i ymwelwyr â chanol y ddinas. Caiff rhagor o fanylion ar sut y gweithredir y gofod eu rhyddhau yn agosach at y dyddiad agor.

Dim Troi Nôl: Gweledigaeth newydd ar gyfer gwasanaethau digartrefedd

Mae gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau digartrefedd yn y dyfodol yng Nghaerdydd sy'n nodi trywydd newydd ar gyfer gwasanaethau llety a chymorth yn y ddinas wedi ei chyhoeddi.

Mae model newydd y Cyngor yn cydymffurfio i raddau helaeth â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar wasanaethau i'r digartref ac mae'n ceisio adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed eisoes yn cefnogi pobl oddi ar y strydoedd. Nod y cynigion yma yw ceisio gwella gwasanaethau i ddiwallu anghenion cleientiaid yn well ac adeiladu ar yr ymateb cyflym i bandemig y Coronafeirws gydag ymagwedd 'Dim Troi Nôl' i gefnogi unigolion sy'n agored i niwed.

Mae elfennau allweddol y weledigaeth newydd yn cynnwys canolfan asesu 24 awr newydd, dod â gwasanaethau i'r ddigartref ac iechyd gyda'i gilydd ar y safle, a llety mwy arbenigol, er mwyn sicrhau bod gan unigolion ddarpariaeth â chymorth o ansawdd da er mwyn helpu i gael eu bywydau yn ôl ar y trywydd iawn.

Mae ymagwedd newydd tuag at ddarparu gwasanaethau ar gyfer teuluoedd digartref sy'n ddigartref hefyd wedi'i nodi mewn adroddiad i'w ystyried gan y Cabinet ddydd Iau, 16 Gorffennaf.

Bydd y Cabinet yn clywed am y cynnydd a wnaed gan wasanaethau yn ystod argyfwng COVID-19, y mesurau cyflym a roddwyd ar waith i letya cleientiaid sy'n agored i niwed yn ddiogel a'r camau a gymerwyd eisoes i sicrhau llety parhaol ychwanegol fel rhan o gynlluniau tymor hwy y Cyngor i fynd i'r afael â digartrefedd.

Bydd canolfan asesu newydd, lle bydd anghenion cleient yn cael eu deall yn iawn a datrysiad priodol yn cael ei ddatblygu, ynghyd â llety argyfwng ar y safle, yn ganolbwynt i'r weledigaeth newydd hon. Bydd y Ganolfan yn dod yn bwynt cydgysylltu ar gyfer gwasanaethau anghenion cymhleth amlddisgyblaethol y ddinas gan gynnwys allgymorth stryd a hostel a bydd yn darparu atgyfeiriadau i gleientiaid gael eu hailgartrefu mewn llety hunangynhwysol o ansawdd da mewn lleoliad â chymorth, gan ddibynnu ar lefel eu hanghenion.

Amlinellir cynlluniau ar gyfer llety gwell yn yr adroddiad. Mae cynlluniau ar y gweill fel bod cyfleuster sy'n bodoli eisoes yn Adamsdown, ac sy'n darparu llety dros dro i deuluoedd digartref ar hyn o bryd, yn canolbwyntio o'r newydd ar ddatblygu cyfleuster integredig o tua 103 o unedau hunangynhwysol gyda chymorth dwys, fel gwasanaethau iechyd a therapiwtig ar y safle. Bydd fflatiau ychwanegol ar gael fel rhan o'r cynllun ar gyfer llety mwy sefydlog tymor hwy.

Mae hyn yn ychwanegol at lety ychwanegol sydd eisoes yn y ddinas yn Llanrhymni, a bloc tai myfyrwyr Uned 42 ar Heol Casnewydd i ateb y galw cynyddol.

Mae ailgartrefu'n gyflym a Thai yn Gyntaf hefyd yn rhan bwysig o'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau digartrefedd yn y dyfodol yng Nghaerdydd, gan sicrhau y gall pobl ddigartref symud i lety parhaol cyn gynted â phosibl.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24325.html

Diogelwch yn gyntaf wrth i'r gwaith ddechrau ar ailagor Ardaloedd Chwarae Plant Caerdydd

Mae gwaith wedi dechrau i sicrhau bod ardaloedd chwarae plant a chyfarpar ffitrwydd awyr agored ym Mharciau Caerdydd yn ddiogel i'w defnyddio, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru bodd modd iddyn nhw bellach ailagor i'r cyhoedd.

Mae gan Gaerdydd fwy na 100 o ardaloedd chwarae a naw ardal ffitrwydd awyr agored a bydd angen cynnal archwiliadau diogelwch ym mhob safle cyn y gellir eu hailagor i'r cyhoedd.

Er mwyn sicrhau bod gan bob ardal yng Nghaerdydd rywfaint o ddarpariaeth i blant gael chwarae yn yr awyr agored cyn gynted â phosibl, bydd yr archwiliadau hyn ac unrhyw waith angenrheidiol i adfer neu atgyweirio cyfarpar yn cael eu cynnal fesul cam dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24318.html

Cyflawni Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gyda chymorth Model Buddsoddi Cydfuddiannol

Caiff Cabinet Cyngor Caerdydd y newyddion diweddaraf am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol i gynorthwyo cyflwyno Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Caerdydd, yn ei gyfarfod ddydd Iau 16 Gorffennaf.

Cynllun cenedlaethol yw'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol a ddatblygwyd i fenthyca arian drwy'r sector preifat er mwyn dylunio ac adeiladu ysgolion, a chynnal adeiladwaith yr adeiladau dros gyfnod o 25 mlynedd.

Mae'r Cyngor wedi cytuno i Gytundeb Partneriaeth Strategol 10 mlynedd gyda menter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a phartner y sector preifat, Meridiam Investments II SAS, i ddarparu ysgolion yn y dyfodol, gan gynnwys, mewn egwyddor, Ysgol Uwchradd Willows ac Ysgol Uwchradd Cathays.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24322.html